



# Canllaw i ganlyniadau UG a Safon Uwch CBAC

Haf 2021

## Cynnwys

1	Diwrnod y Canlyniadau.....	3
	i) Casglu Canlyniadau Arholiadau.....	3
	ii) Beth i'w ddisgwyl .....	3
	iii) Sut mae'r canlyniadau yn cael eu dangos ar y slip canlyniadau?.....	3
	iv) Symbolau a ddefnyddir ar slip canlyniadau .....	3
2.	Esbonio graddau .....	4
3.	Beth i'w wneud os yw ymgeisydd yn pryderu am ganlyniad.....	4
4.	Pryd bydd tystysgrifau ar gael? .....	5

# 1 Diwrnod y Canlyniadau

## i) Casglu Canlyniadau Arholiadau

Rhaid i ymgeiswyr gasglu eu canlyniadau arholiadau o'u canolfan, fel arfer ar y Diwrnod Canlyniadau swyddogol.

Yn Haf 2021, cyhoeddir y canlyniadau o 8:30am **ddydd Mawrth 10 Awst**.

Dylai ysgolion a cholegau roi gwybod i bob ymgeisydd pa drefniadau sydd ar waith ar gyfer derbyn y canlyniadau. Dylai'r ymgeiswyr hefyd gael gwybod gyda pha aelodau o staff yr ysgol neu'r coleg y dylent drafod unrhyw ymholiadau neu bryderon sydd ganddynt am unrhyw ganlyniadau. Efallai y bydd angen i drefniadau fod yn wahanol i rai blynyddoedd blaenorol, a bydd angen i'r trefniadau hyn ystyried y cyngor diweddaraf gan y llywodraeth sy'n berthnasol i'ch ardal chi.

Nid yw CBAC yn gallu darparu na thrafod canlyniadau dros y ffôn na drwy gyfathrebu ar e-bost ag ymgeiswyr neu rieni, hyd yn oed os yw'r ysgol neu'r coleg wedi cau. Dylai ymgeiswyr, felly, gadarnhau â'u hysgol neu goleg pryd a ble y bydd canlyniadau ar gael i'w casglu a sut, pa bryd a gyda phwy y gallent drafod unrhyw faterion neu bryderon.

Ni ddylid datgelu canlyniadau i unrhyw un arall gan gynnwys awdurdodau lleol a'r cyfryngau tan ar ôl 9.30am ar y dydd Mawrth. Cyhoeddir y manylion yn llawn, gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau sy'n ymwneud â rhyddhau canlyniadau, yn nogfen y CGC **Rhyddhau canlyniadau Mehefin 2021**.

## ii) Beth i'w ddisgwyl

Ar Ddiwrnod y Canlyniadau, bydd ymgeiswyr fel arfer yn derbyn darn o bapur gyda'u canlyniadau arno. Os yw ymgeiswyr wedi sefyll cymwysterau gyda byrddau arholi gwahanol, gallan nhw dderbyn mwy nag un slip canlyniadau, neu gall yr ysgol neu goleg greu un slip sy'n dangos yr holl ganlyniadau gyda'i gilydd.

Canlyniadau rhagarweiniol yw'r rhain ar hyn o bryd; gellir gwneud newidiadau yn ddiweddarach, yn dilyn adolygiad gan y ganolfan neu apêl.

## iii) Sut mae'r canlyniadau yn cael eu dangos ar y slip canlyniadau?

Bydd slipiau canlyniadau yn dangos canlyniadau ymgeisydd o bob pwnc/cymhwyster a safwyd ganddo yn ystod y gyfres arholiadau honno.

Bydd slipiau canlyniadau yn dangos gradd gyffredinol y cymhwyster i'r pwnc.

## iv) Symbolau a ddefnyddir ar slip canlyniadau

Yn ogystal â graddau, gall slipiau canlyniadau gynnwys symbolau eraill:

Mae **X** yn dangos nad yw canlyniad yn cael ei gyhoeddi oherwydd absenoldeb yr ymgeisydd ar gyfer pob cydran/uned. Mae'n bosibl hefyd y penderfynwyd peidio â chyhoeddi canlyniad. Ni fydd unrhyw bwnc ag (X) yn ymddangos ar y dystysgrif.

Mae **Q** yn dangos nad yw canlyniad yn cael ei gyhoeddi gan na ddarparwyd gradd.

## 2. Esbonio graddau

### TAG (Safon Uwch)

Adroddir graddau pynciau gradd unigol fel A\*-E (gradd A\* yw'r uchaf).

Adroddir canlyniadau'r pynciau Safon Uwch Dwyrradd ar raddfa o un ar ddeg (11) gradd: A\*A\*, A\*A, AA, AB, BB, BC, CC, CD, DD, DE, EE. Bydd ymgeiswyr y mae lefel eu cyflawniad islaw'r safon leiaf yn derbyn canlyniad (U) annosbarthedig fydd ddim yn ymddangos ar dystysgrifau.

### TAG (UG)

Adroddir canlyniadau'r pynciau gradd unigol fel A – E ( A\* yw'r uchaf).

Adroddir canlyniadau Uwch Gyfrannol Dwyrradd ar raddfa o naw gradd: AA, AB, BB, BC, CC, CD, DD, DE, EE. Bydd ymgeiswyr y mae lefel eu cyflawniad islaw'r safon leiaf yn derbyn canlyniad (U) annosbarthedig fydd ddim yn ymddangos ar dystysgrifau.

## 3. Beth i'w wneud os yw ymgeisydd yn pryderu am ganlyniad

Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn trafod unrhyw bryderon sydd ganddynt â'u canolfan ac yna'n penderfynu ar y dewisiadau gorau sydd ar gael. **Cynghorir ymgeiswyr i gadw mewn cysylltiad agos â'u canolfannau i sefydlu'r ffordd orau o gysylltu â nhw yn ystod y cyfnod yn syth ar ôl y canlyniadau. Rhaid i ymgeiswyr gysylltu â'u canolfan i gael canlyniad ymholiadau am ganlyniadau. Ni all CBAC gadarnhau canlyniadau apeliadau yn uniongyrchol i ymgeiswyr.**

Darparodd y canolfannau eu gradd a bennwyd gan y ganolfan dros dro i ymgeiswyr ar 30 Mehefin 2021 neu cyn hynny. Os credodd ymgeisydd bod gwall wedi'i wneud wrth gyrraedd ei ganlyniad, yna roedd gofyn iddo gyflwyno cais i'w ysgol neu goleg am adolygiad canolfannau (cam 1 y broses apeliadau) o fewn y terfynau amser a bennwyd gan yr ysgol honno neu'r coleg hwnnw. Roedd rhaid i'r canolfannau gwblhau pob adolygiad a rhoi gwybod i CBAC am unrhyw newid i raddau ar sail yr adolygiadau hynny erbyn 20 Gorffennaf.

Os yw ymgeisydd yn credu bod gwall o hyd, ar ôl i'r ganolfan gwblhau ei hadolygiad, yna dylai lenwi ffurflen gais a gofyn i'r ganolfan ei chyflwyno i CBAC ar ei ran ar ddiwrnod y canlyniadau neu wedi hynny. Nid yw'n bosibl apelio i CBAC oni bai bod cais wedi'i wneud am adolygiad gan y ganolfan a bod yr adolygiad hwnnw wedi'i gwblhau. Yr unig eithriad i hyn yw os bydd ymgeisydd yn credu bod CBAC wedi gwneud gwall wrth gyhoeddi ei radd.

Mae manylion llawn ac arweiniad am y broses apeliadau i'w cael ar ein gwefan CBAC.

[Haf 2021 – Sut i apelio](#)

[Cefnogi Myfyrwyr – Anhapus â'ch canlyniadau](#)

[Cefnogi Myfyrwyr – Ymgeiswyr Preifat](#)

## 4. Pryd bydd tystysgrifau ar gael?

Anfonir tystysgrifau i ganolfannau yn ystod mis Tachwedd 2021.

Dylai ymgeiswyr wirio bod eu manylion personol, enw a dyddiad geni, yn gywir ar y slip canlyniadau a rhoi gwybod i'r Swyddog Arholiadau os oes unrhyw wallau. **Rhaid i Swyddogion Arholiadau roi gwybod i CBAC am wallau, yn ysgrifenedig, yn ddim hwyrach na dydd Iau 9 Medi 2021.** Os na fydd gwallau'n cael eu cywiro yn y cyfnod hwn, bydd cost am dystysgrifau newydd ar ôl eu cyhoeddi. Dylai ymgeiswyr gadarnhau â'u hysgol neu goleg beth yw'r trefniadau ar gyfer derbyn eu tystysgrifau.